**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**
**EBRILL 24AIN 2024 AM 7:30YH**
**CYNHALIWYD YN LLANGERNYW**

## 1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

**1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Einir Williams (EW), Jane Roberts (JR), Ann Vaughan (AV), Myrddin Davies (MGD), Diane Roberts (DR), Mark Davies (MD), Sara Thomas (ST), Euros Williams (EUW), Austin Roberts (AR) & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)

**1.3** Ymddiheuriadau: Dim

**1.4** Absennol: Gwydion Jones (GJ)

## 2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

## 3 COFNODION MAWRTH 27AIN 2024 I'W GWIRIO

Cynigwyd yn gywir gan JR ac eiliwyd gan DR.

## 4 MATERION YN CODI

**4.1** Cais Clocaenog - rydym wedi clywed yn ôl ac maent yn fodlon cyfrannu pris llawn ar gyfer y diffibrilydd sef £1,646 ond ddim am gyfrannu at gostau VAS gyda'r rheswm nad oes digon o gefnogaeth nac ymgynghoriad wedi bod gyda'r gymuned. Mae CWG wedi clywed yn ôl gan Richard Roberts fod yr arwyddion VAS wedi eu harchebu. Gofynnodd DR a ddylid gofyn iddynt pe bai yna ymgynghoriad yn digwydd gyda'r gymuned a bod y cais yn cael ei ail-gyflwyno yna tybed fydden nhw'n ail ystyried? Cynigiodd ST y dylid gofyn i bwyllgor rhieni ac athrawon yr ysgol i wneud cais am arian i grant Cronfa Bro Cernyw gan ei fod yn fater iechyd a diogelwch o gwmpas yr ysgol.

**4.2** Taflen lwfansau - diolch yn fawr i bawb am arwyddo'r daflen i gadarnhau nad ydynt am dderbyn lwfans am eleni a bydd yn cael ei gyflwyno i'r IRPW.

**4.3** Holiadur wedi ei greu gan CWG - trafodwyd ei gynnwys a'i ddefnydd a dywedodd MGD ei fod yn ffordd o ymgynghori pe bai angen.

**4.4** Tir o gwmpas y cae bob tywydd - nododd AR ei fod wedi ei drafod yn y pwyllgor llywodraethwyr.

**4.5** Cyfnewidfa hadau a phlanhigion - wedi bod yn fore llwyddiannus ac roedd pawb yn awyddus iddo gael ei gynnal eto'r flwyddyn nesaf. Er mai cyfnewidfa oedd, cafwyd cyfraniadau o £24.40 a roddwyd i'r Eglwys fel diolch am gael defnyddio'r adeilad. Diolchwyd i Ferched y Wawr am fod yn gyfrifol am wneud paned ac i Mrs Gwenda Cooper am ganiatáu defnydd o'r Eglwys.

**4.6** Dyddiadau sgipiau - CWG wedi cael prisiau gan amrywiol gwmnïau gyda 2 gwmni ddim yn darparu rhai i'r ardal. Roedd y pris rhataf gan gwmni Thorncliffe a phenderfynwyd i archebu 2 sgip 8 tunnell gydag un i fynd i Bandy Tudur wrth ymyl Ty'n Ffynnon a'r llall i Wytherin i faes parcio'r *Lion*. Bydd angen talu £78 am ganiatâd gan y Cyngor Sir ar gyfer yr un ym Mhandy Tudur gan ei fod ar ochr y ffordd. Dywedodd AR y byddai yn holi'r cyngor i weld os oes unrhyw beth y gellir ei wneud ynglŷn â'r gost yma oherwydd ers talwm roedd y Cyngor yn darparu'r sgipiau eu hunain.[EW yn cyrraedd, wedi bod mewn pwyllgor arall]. Penderfynwyd i CWG archebu'r sgipiau a'u hysbysebu.

**4.7** Camerâu T.C.C - CWG wedi gyrru linc i gamera bywyd gwyllt y gellir ei brynu ar *Amazon* i bawb. Pawb yn cytuno ei fod yn syniad da ei brynu. Penderfynwyd i CWG ei brynu gyda'i cherdyn ei hun a chael ad-daliad. Dywedodd AR y gall wneud ymholiadau i weld os ellir y Cyngor Sir roi arwyddion dim cŵn yn y mynwentydd i fyny. Nodwyd fod arwydd 'dim baeddu' wrth ymyl y toiledau yn Llangernyw wedi dod lawr. Dywedodd MD fod y bagiau biniau baw ci yn Llangernyw yn wag ac felly penderfynwyd y dylai CWG archebu ychwaneg.

**4.8** Cwrs Cymorth Cyntaf – CWG wedi cael y dyddiadau canlynol gan Tomos sef Mehefin 4ydd neu 6ed ac mae'r neuadd yn rhydd y ddwy noson.  Penderfynwyd i ofyn iddo gynnal y cwrs ar nos Fawrth 4ydd o Fehefin am 6 o'r gloch yn Llangernyw.

**4.9** Torri gwair - cafwyd ymholiad os ydi'n bosib casglu'r gwair sydd wedi ei dorri yn y mynwentydd. Nododd DR eu bod wedi cael pris o'r blaen ond ei fod yn dyblu'r gost. Dywedodd EW gan fod toriadau ym mhobman yna ni ellir gwario ar gasglu'r gwair. Holodd DR beth sy'n digwydd ynglŷn â'r darn o wair wrth ymyl Glan Collen sydd heb ei dorri'r llynedd nac eleni o gwbl a dywedodd AR y gwnâi ymchwilio.

## 5 CEISIADAU CYNLLUNIO

Dim wedi dod i law.

## 6 MATERION CYNGOR

**6.1** Awdit llawn 2023-24 – mae'r ffolder yn barod ac mae angen llenwi'r gwaith papur a hel y dogfennau angenrheidiol. Bydd CR yn ffonio Iona Williams i bwysleisio ei fod yn awdit llawn a bod angen cyflwyno'r adroddiad ar amser. Penderfynwyd i CWG anfon e-bost i bawb y diwrnod mae'n cyflwyno'r ffolder i'r cyfrifydd.

**6.2** Adroddiad pwyllgor ardal Conwy a Dinbych Un Llais 10.4.24 gan DR - wedi ei yrru o flaen llaw i bawb dros e-bost. Trafodwyd llawer am y sefyllfa o ran yr ambiwlans awyr a diolchwyd i DR am gynrychioli'r cyngor cymuned yn y pwyllgor.

**6.3** Cyfarfod *zoom* ar gyfer cynghorydd sydd methu mynychu – soniodd MGD ei fod wedi colli llawer o gyfarfodydd yn ddiweddar oherwydd ei fod i ffwrdd gyda gwaith ac felly ei fod yn meddwl ei fod yn syniad da i gynnig y gellir mynychu'r cyfarfod drwy gyfrwng *zoom* mewn sefyllfa o'r fath. Ategodd JR y byddai'n syniad da ei gynnig gan y byddai'r cynghorydd yn gallu pleidleisio a mynegi barn. Pawb yn cytuno i'w gynnig mewn cyfarfodydd o hyn allan.

**6.4** Pwyllgor Pethau Bychain 16.4.24 - CWG wedi mynychu. Trafodwyd y rheolau newydd o ran ailgylchu mewn busnesau a mannau cyhoeddus. Pe bai digwyddiad mewn neuaddau, mynwentydd a.y.b. yna'r polisi yw gwneud eich gorau posib i annog pobl i ailgylchu drwy roi arwyddion a biniau pwrpasol. Mae neuaddau mewn nifer o fannau yn gofyn iddynt fynd a'u sbwriel adref efo nhw. Yn dilyn cais gan DR yn y pwyllgor diwethaf o ran diffyg cyfieithydd yn y pwyllgor pethau bychain diwethaf, fe gysylltodd CWG gydag Un Llais. Cafwyd ymateb yn ôl yn dweud nad oedd cyfieithydd ar gael ar gyfer y pwyllgor uchod ond maent am ei ystyried ar gyfer y dyfodol. Roedd y pwerbwynt yn y cyflwyniad yn uniaith Saesneg ac mi gododd unigolyn arall oedd yn bresennol mai'r polisi yw bod yn ddwyieithog. Roedd pawb yn siomedig o glywed hyn ac eisiau cysylltu gyda Chomisiynydd y Gymraeg os nad ydynt yn dilyn y Ddeddf Iaith.

**6.5** Cyrsiau am ddim gan Un Llais – CR a MD am fynychu'r cwrs côd ymddygiad, CWG i drefnu hyn.

## 7 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

**7.1** Mae Nyth y Wennol o dan archwiliad gan yr adran orfodaeth oherwydd eu bod yn edrych ar ôl cŵn ac wedi gosod carafán yno.

**7.2** Mae'r gwaith gosod cerbiau cyn Tŷ Pella wedi ei gyflawni.
**7.3** Gwaith gosod cerrig wrth ymyl Nant Mawr i godi ochr y ffordd wedi ei orffen.
**7.4** Mae'r cyngor am gychwyn ar y gwaith ar ffordd Hafodunos o fewn pythefnos gan agor ffosydd, patsio, a gosod tar a cherrig mân o'r siop Hynafolion hyd at Garej Wanklyn. Yna, byddent yn gwneud gwaith ar y ffordd i fyny heibio'r garej. Bydd hyn yn digwydd yr wythnos hon neu nesaf gyda gosod tar a cherrig mân yn digwydd diwedd Mai/ dechrau Mehefin.
**7.5** Mae'r un fath o waith am ddigwydd rhwng Rhydeden a Chefn Groes Bach a bydd gwaharddiadau ffyrdd.
**7.6** Mae gwaith ffordd allt Ty'n Pistyll am gychwyn yr wythnos nesaf.

Nododd EW fod cambr yn y ffordd wrth Hendre Bach wedi newid gan greu problem gyda'r dŵr. Mae AR wedi cael sgwrs gyda phrif beiriannydd y cyngor ac mae'n ymwybodol ohono ac mae i lawr i gael ei wneud ond ddim yn siŵr pryd. Hefyd nododd fod pwll o ddŵr yn hel wrth ymyl Ty'n Ffynnon, Pandy Tudur. Dywedodd AV fod goleuadau traffig yn dal i fod wrth Sgubor Newydd. Mynegodd JR ei phryder am y ffordd wrth Cefn Isa gan fod sawl tacsi a lorri laeth yn goryrru tra bod y ffordd yn llyfn ac yn beryglus. Eglurodd AR nad oes digon o arian yn y coffrau a bod y peiriannydd yn adnabod y ffyrdd gwaethaf. Gofynnodd i JR i'w e-bostio a bydd yn ei basio ymlaen i'r Cyngor. Eglurodd hefyd fod y cyngor yn cymryd i ystyriaeth faint sydd wedi ei wneud yn barod yn yr ardal.

## 8 MATERION ARIANNOL

**8.1** Adroddiad chwarterol a diwedd y flwyddyn ariannol - wedi ei yrru ar e-bost i bob cynghorydd o flaen llaw ac fe'i pasiwyd yn gywir.
**8.2** E-bost gan Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen yn gofyn am gyfraniad - penderfynwyd i beidio cyfrannu
**8.3** E-bost gan Mind Conwy yn gofyn am gyfraniad - penderfynwyd i beidio cyfrannu.

## 9 GOHEBIAETH

Wedi eu gyrru ymlaen i bob cynghorydd er gwybodaeth:
**9.1** Prosiect Gwynt Alltraeth Mona
**9.2** Cwrs Cyflwyniad i Seiberddiogelwch
**9.3** Cynghorau Lleol yn gosod safonau newydd ar draws Cymru
**9.4** Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru Mawrth, Ebrill, Mai & Mehefin 2024
**9.5** Argyfwng Costau Byw - Cylchlythyr Ebrill 2024 Un Llais Cymru
**9.6** Arolwg mannau agored
**9.7** Digwyddiad Dathlu Gwirfoddolwyr CVSC
**9.8** Lleoedd rhad ac am ddim
**9.9** Hyfforddiant i Glercod a Chynghorwyr y Cynghorau Tref a Chymuned

Er gwybodaeth:
**9.7** Cadw'r Dyddiad - Cynhadledd Arfer Arloesol Un Llais Cymru - 3/7/24 Maes Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd.

## 10 BILIAU

**10.1** Costau CWG: amlenni yn £0.99 a stampiau yn £6.80 sef cyfanswm o £7.79
**10.2** Bil gan Dei Evans am dorri gwair yn y mynwentydd £460
**10.3** Enlli – cyfieithu - £95
**10.4** Iona Williams – paratoi cyflogau - £60

Pasiwyd i dalu'r uchod i gyd.

## 11 MATERION LLEOL

**DR** Dywedodd fod CWG wedi bod yn gweithio fel Clerc ers blwyddyn bellach ac felly awgrymodd ei bod yn amser edrych ar y cyflog. Pasiwyd i roi hyn ar yr agenda ar gyfer y mis nesaf. Gofynnodd hefyd am ganiatâd i wario pres ar flodau a chytunodd pawb gyda hyn.
**AV** Bydd AV yn gwneud y tybiau blodau ym mynwent Eglwys Llangernyw gyda Mary.
**JR** Ar ran yr holl Gynghorwyr, dymunodd JR ben-blwydd hapus i EW ar ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

**12 CYFARFOD NESAF**
Mai 22ain 2024 yng Ngwytherin.
Cyfarfod yn dod i ben am 21:20.
Cymerwyd y cofnodion gan CWG.